


# YMCHWIL AR ANIFEILIAID

Er gwaetha'r holl ddadleuon yn erbyn arbrofi ar anifeiliaid,mae'r gyfran o arbrofion ar anifeiliaid sydd wedi eu haddasu o ran genynnau wedi dyblu ers y flwyddyn 2000. Yn 2009 dyma'r anifeiliaid yr arbrofwyd arnynt:




Un peth sydd ddim wedi newid ers 2000, fodd bynnag, ydy'r dadleuon, o blaid ac yn erbyn! Ystyriwch sefyllfa druenus yr anifeiliaid yn y labordy .... *ond maen nhw'n cael eu harchwilio'n gyson! Ac mae arbrofi ar anifeiliaid wedi helpu i ddatblygu brechiadau llwyddiannus yn erbyn clefydau fel ci lloerig, polio, y frech goch,clwy pennau, rubella a diciâu*..... Mae'n warth nad ydy'r anifeiliaid druan yn cael anaesthetic. *Sut gwyddoch chi hynny? A fyddai'n well gennych chi fod heb wrthfiotigau, cyffuriau HIV a thriniaethau inswlin a chancr? Maen nhw'n dibynnu ar brofion ar anifeiliaid.*

Beth am ddefnyddio dulliau eraill o arbrofi, fel profi tisw dynol mewn tiwb, defnyddio modelau cyfrifiadurol neu archwilio nifer enfawr o ystadegau? *Dydy'r mathau yna o brofion ddim yn ddigon datblygedig*.... Mae gan anifeiliaid hefyd hawliau. Dydyn nhw ddim wedi gwneud dim o'i le. *Nac ydyn, ond heb arbrofi arnyn nhw fyddai pobl ddim yn gallu cael trawsblaniad organau. Siawns nad ydy bywyd dyn yn fwy gwerthfawr nag un anifail!*

Ydy defnyddiau glanhau, cemegion amaethyddol a diwydiannol, plaladdwyr, paent neu ychwanegion bwyd yn fwy gwerthfawr na dyn?

*Beth ydy'r gorau? Bwyta miliynau o anifeiliaid neu arbrofi ar gyfran fechan ohonyn nhw?*

Ymlaen ac ymlaen yr â'r dadleuon o oes i oes!